

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Chris Moore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd y Sir Cyngor Sir Caerfyrddin
Caerfyrddin
SA31 1JP

Cyfeirnod: WPP-2 1/22

Dyddiad cyhoeddi: 1 Gorffennaf 2022

Annwyl Chris,

Cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru 202 1-22 Datganiad Blynyddol

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 14 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rwy'n rhoi fy adroddiad ar Ddatganiad Blynyddol Cyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. I grynhoi, mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a yw'r datganiad cyfrifon blynyddol:

- wedi'i baratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigurau'n cytuno i'r cofnodion sylfaenol y cawsant eu paratoi arnynt ac maent yn gyson â thrafodion a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol am yr un cyfnod adrodd); a
- bwrw'n gywir.

Adroddiad archwilio ar y datganiad blynyddol o gyfrifon sy'n ymwneud â chyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022:

Ar yr amod bod y ddau gam canlynol yn cael eu cwblhau'n foddhaol, byddwn yn gallu ardystio ffurflen flynyddol y cyd-bwyllgor a chyhoeddi ein hysbysiad o gwblhau'r archwiliad.

- Cymeradwyo datganiad cyfrifon 2021-22 gan y cydbwyllgor sydd i'w wneud yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf 2022.
- Ar 25 Gorffennaf 2022, caiff etholwyr llywodraeth leol arfer eu hawliau o dan adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch cyfrifon y cyd-bwyllgor neu wneud gwrthwynebiadau iddynt ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Pe bai unrhyw faterion yn codi o'r broses hon, byddai angen i ni ystyried y rhain cyn gallu ardystio ffurflen flynyddol y cyd-bwyllgor.

Unwaith y bydd y camau hyn wedi'u cwblhau i'n boddhad, byddwn yn gallu cadarnhau'r canlynol:

'Ar sail ein hadolygiad ac yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Datganiad Blynyddol yn unol ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw gan beri pryder nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoliadol wedi'u bodloni.'

Materion eraill

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae angen inni dynnu eich sylw atynt.

Yn gywir



Richard Harries

ar gyfer ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru